



Eich cyf/Your ref P-05-950
Ein cyf/Our ref KW/03384/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

6 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mehefin ynghylch y Ddeiseb (P-05-950) Addysg Amaethyddiaeth a Chefn Gwlad i blant 4-16 oed yn ein hysgolion. Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi gofyn pa waith sy'n cael ei wneud i ddatblygu adnoddau addysgu ar bynciau, gan gynnwys y rheini a ddygir i sylw'r Pwyllgor, a phryd y bydd yr adnoddau hyn ar gael i athrawon.

Mae eich llythyr yn amserol iawn gan fod addysg yng Nghymru yn newid. Ym mis Ionawr 2020, lanswyd fersiwn gyntaf y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru. Wrth wraidd y cwricwlwm newydd mae'r pedwar diben sy'n nodi'r dyheadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Erbyn iddynt fod yn 16 oed, dylent fod yn unigolion hyderus, moesegol sy'n chwarae rhan weithredol yn eu cymuned a chymdeithas.

Bydd y cwricwlwm ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2022; Mae'n darparu fframwaith i gefnogi pob ysgol i gynllunio ei chwricwlwm ei hun ar lefel ysgol leol. Mae hyn yn gwro'n sylweddol o'r dull rhagnodol blaenorol.

Fel rhan o *Diogelu Addysg: canllawiau ar ddysgu dros dymor yr haf* a gyhoeddwyd ar 10 Mehefin 2020, cynghorwyd ysgolion i wneud y gorau o'r amser mae dysgwyr yn ei dreulio yn yr awyr agored. Manteision corfforol, meddyliol ac addysgol dulliau dysgu yn yr awyr agored yw:

- mae dysgu 'yn' yr awyr agored yn cefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol
- mae dysgu 'am' yr awyr agored yn rhoi cyd-destun i ddatblygu dysgwyr galluog ac uchelgeisiol (yn enwedig drwy wyddoniaeth a'r dyniaethau)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- mae dysgu 'ar gyfer' yr awyr agored yn gallu ymwneud â'r argyfwng hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol, gan arwain at ddatblygu dinasyddion egwyddorol a gwybodus

Mae ystod eang o sefydliadau'n darparu adnoddau i gefnogi ysgolion a lleoliadau wrth ystyried dysgu yn yr awyr agored a gyrchwyd drwy Hwb, yn ogystal â thrwy Cyngor Cymru ar Gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored, gan gynnwys eu harweiniad ar 'ddysgu awyr agored o ansawdd uchel i Gymru':

<https://hwb.gov.wales/repository/discovery>


<https://www.walescouncilforoutdoorlearning.org/activity-ideas/>

Fel rhan o'i weithgareddau parhaus, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu adnoddau ar-lein sy'n ymdrin â materion megis coed a choetiroedd i ddatblygu cynaliadwy. Mae'r adnoddau'n amlygu pwysigrwydd cynaliadwy wrth reoli ein hadnoddau naturiol, yr amgylchedd a chymunedau lleol:

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/education-learning-and-skills/looking-for-learning-resources/?lang=en>

Gobeithiaf fod y wybodaeth hon wedi bod o gymorth.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS

Y Gweinidog Addysg
Minister for Education